

Adroddiad i'r	Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio
Dyddiad y Cyfarfod	8 Gorffennaf 2020
Aelod / Swyddog Arweiniol	Lisa Lovegrove – Prif Archwilydd Mewnol
Awdur yr Adroddiad	Lisa Lovegrove – Prif Archwilydd Mewnol
Teitl	Diweddariad Archwilio Mewnol

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad ar gyfer y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio ar gynnydd diweddaraf yr Archwiliad Mewnol o ran cyflwyno gwasanaeth, darparu sicrwydd, adolygiadau a gwblhawyd, perfformiad ac effeithiolrwydd wrth yrru gwelliant. Mae hefyd yn cynnwys diweddariad ar y cynnydd gyda Phwyllgorau Arferion Arfer Da CIPFA.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

I ddarparu gwybodaeth am y gwaith a wnaed gan Archwilio Mewnol ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor. Mae'n caniatáu i'r Pwyllgor fonitro perfformiad a chynnydd yr Archwiliad Mewnol yn ogystal â darparu crynodebau o adroddiadau Archwilio Mewnol fel y gall y Pwyllgor dderbyn sicrwydd ar wasanaethau eraill y cyngor a meysydd corfforaethol.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn ystyried cynnwys yr adroddiad, yn asesu cynnydd a pherfformiad yr Archwiliad Mewnol ac yn penderfynu a oes angen sicrwydd pellach ar yr adroddiadau archwilio.

4. Manylion yr Adroddiad

Mae adroddiad Atodiad 1 yn rhoi diweddariad ar 26 Mehefin 2020 ar:

- Adroddiadau archwilio mewnol a gyhoeddwyd yn ddiweddar;
- Cynnydd ar waith Archwilio Mewnol hyd yma;
- Cynnydd ar weithredu camau cytunedig o brosiectau sicrwydd;
- Diweddariad gwrth-dwyll;
- Diweddariad ar berfformiad Archwilio Mewnol yn erbyn safonau penodol; a
- Diweddariad ar y cynnydd gyda'r CIPFA Arfer Da ar gyfer Pwyllgorau Archwilio.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Nid oes angen penderfyniad gyda'r adroddiad hwn. Nid oes unrhyw gyfraniad uniongyrchol at Flaenoriaethau Corfforaethol, ond bydd rhai prosiectau yn y cynllun archwilio yn adolygu meysydd Blaenoriaeth Gorfforaethol ac yn rhoi sicrwydd ynghylch eu cyflawni.

6. Beth fydd cost hyn a beth fydd ei effaith ar wasanaethau eraill?

Ddim yn berthnasol - nid oes penderfyniad na chostau ynghlwm â'r adroddiad.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Aseiad o'r Effaith ar Les?

Ddim yn berthnasol - nid yw'r adroddiad hwn yn gofyn am benderfyniad na chynnig ar gyfer newid.

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Craffu ac eraill?

Ddim yn ofynnol.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ynghlwm â'r adroddiad hwn.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Ddim yn berthnasol - nid oes angen penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Ddim yn berthnasol - nid oes angen penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.